


UCU
University and College Union
Undeb Prifysgol a Choleg Cymru

UCU RISING

# DIGON yw DIGON

## CEFNOGWCH EIN STREIC

# PAM RYDYM YN STREICIO?

Mae ein cyflog wedi'i dorri 25% ers 2009. Oherwydd y pwysau a roddwyd ar gyflogwyr yn sgil ein streic diweddar, gwnaethant gynnig cyflog a oedd werth rhwng 4-5% ar gyfer 2023-24 yn wreiddiol. Nid yw'r cynnig o 3% o gynnydd ar gyfer 2022-23 wedi cael ei wella. Mae'r 'cynigion' hyn yn cynrychioli toriad anferth mewn termau real i gyflogau o gymharu â chwyddiant ac nid ydynt yn ymgais wirioneddol i ddatrys yr anghydfod.

**Mae gorweithio, ansicrwydd a chyflog gwael yn effeithio ar ein gwaith ac addysg ein myfyrwyr.**

## BETH RYDYM YN GOFYN AMDANO?

1. Cyflog teg.
2. Gweithredu dros fylchau cydradd rhwng cyflogau.
3. Dileu swyddi dros dro.
4. Gweithredu dros lwythi gwaith.

## A ALL PRIFYSGOLION EI FFORDDIO?

- Daeth ein cyflogwyr â blwyddyn 2020-21 i ben gyda £2.4bn yn fwy o arian parod yn y banc na'r hyn oedd ganddynt ar ddechrau'r flwyddyn.
- Yn hytrach na buddsoddi mewn staff mae ein cyflogwyr yn gwario biliynau ar brosiectau diwerth.
- Mae'r bobl sy'n rhedeg ein prifysgolion yn ennill hyd at £500,000 y flwyddyn ac yn hawlio miliynau mewn treuliau
- Mae'n bryd i brifysgolion fuddsoddi yn eu hased fwyaf: eu staff!

## BETH AM EIN MYFYRWYR A'U HADDYSG?

- Streicio yw'r dewis olaf bob tro; y peth olaf y mae unrhyw un ohonom am ei wneud yw niweidio addysg myfyrwyr.
- Oherwydd y system reoli, nid oes gennym unrhyw ddewis ond cymryd camau i ddiogelu ein cyflog a'n hamodau.
- Nid dim ond er eu budd eu hunain y mae staff yn streicio, ond er mwyn diogelu ansawdd yr addysg a roddir i fyfyrwyr.
- Ni ellir disgwyl i staff ansicr, sy'n cael eu llethu gan waith a heb gyflog digonol sicrhau'r canlyniadau gorau i fyfyrwyr: ein hamodau gwaith ni yw amodau dysgu myfyrwyr.
- Rydym yn falch o gefnogaeth myfyrwyr ar ein llinellau piced.

**Cofrestrwch fel cefnogwr yn:** ucu.org.uk/supportthestrikes
**Ymwelwch â'n llinellau piced a rhowch wybod i ni eich bod yn ein cefnogi**
**Cyfrannwch at ein cronfa brwydro:** ucu.org.uk/fightingfund
**Dangoswch eich cefnogaeth drwy bostio ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio:** #ucuYnCodi / #ucuRISING

UCU RISING